**PWYLLGORAU GWEITHREDOL A CHANOLOG**

# Adroddiad Monitro Ymweliad

| | |
|---|---|
| **PWNC:** | **GWEITHGARWCH YMWELD** |
| **ADRODDIAD:** | **SWYDDOG YMGYSYLLTU Â CHLEIFION A'R CYHOEDD/MONITRO A CHRAFFU** |
| **STATWS:** | **PAPUR GWYBODAETH** |
| **CYSWLLT:** | **SARA NEWNES** |
| **DYDDIAD:** | **MEHEFIN 2018** |

## DIBEN

Hysbysu Pwyllgorau am weithgarwch ymweld y CIC ac ymatebion y Bwrdd Iechyd yn dilyn ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mawrth 2018.

## CEFNDIR

Cynhaliwyd ymweliadau ag adrannau achosion brys, ysbytai cymunedol a wardiau acíwt cyffredinol fel rhan o Gynllun Blynyddol y CIC. Ar ben hynny, cynhaliwyd ymweliadau brys ag un feddygfa ac un ward ysbyty cymunedol.


| | Tudalen |
|---|---|
| **Ymweliadau o'r chwarter blaenorol wedi'u diweddaru ag ymateb y Bwrdd Iechyd** | 2 |
| **Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mawrth 2018** | 11 |

## Ymweliadau o'r chwarter blaenorol wedi'u diweddaru ag ymateb y Bwrdd Iechyd

| Ysbyty | Ardal | Dyddiad yr Ymweliad | Terfyn Amser y Bwrdd Iechyd ar gyfer Ymateb | Ymateb wedi'i Dderbyn |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbyty Nevill Hall** | **Adran Damweiniau ac Achosion Brys** | **17/08/2017 a 25/08/2017** | **21/11/2017** | **Do** |
| **Materion a Nodwyd /argymhellion** | 1. Ni roddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i rai cleifion am amseroedd aros.<br>2. Gallai'r ystafell aros fod yn fwy cyfforddus ar gyfer cyfnodau aros hwy.<br>3. Cafwyd bod rhan o'r llawr yn rhydd a oedd yn achosi perygl baglu posibl.<br>4. Roedd angen glanhau ac atgyweirio'r toiledau. | | | |
| **Arfer Da a Nodwyd** | 1. Lefelau uchel o foddhad cleifion.<br>2. Roedd y cleifion yn canmol y staff yn fawr. | | | |
| **Ymateb gan BIPAB** | 1. Mae bwrdd arddangos LED wedi'i osod i hysbysu cleifion ynghylch amseroedd aros yn yr ardal aros.<br>2. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i leihau amseroedd aros cymaint â phosibl. Fodd bynnag, pan fydd angen aros yn hir, bydd y nyrs gyfrifol yn sicrhau bod cleifion yn gyfforddus.<br>3. Roedd gwaith atgyweirio lloriau wedi dechrau.<br>4. Mae gwaith adfer wedi'i gwblhau. Mae amserlen wrthi'n cael ei llunio ar gyfer rhaglen arfaethedig o waith atgyweirio ac roedd adolygiad o drefniadau glanhau domestig yn mynd rhagddo. | | | |

| Ysbyty | Ardal | Dyddiad yr Ymweliad | Terfyn Amser y Bwrdd Iechyd ar gyfer Ymateb | Ymateb wedi'i Dderbyn |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbyty Nevill Hall** | **Uned Asesiadau Brys** | **17/08/2017 a 18/11/2017** | **08/11/2017** | **Do** |
| **Materion a Nodwyd /argymhellion** | 1. Nid oedd yr holl gleifion yn ymwybodol o'r cyfleusterau a oedd ar gael iddynt pan oeddent yn aros.<br>2. Nid oedd lefel y cysur yn yr ardal aros yn briodol ar gyfer cyfnodau aros hir.<br>3. Yn ystod yr ymweliad nos, nid oedd y rhestr staffio'n llawn.<br>4. Roedd cyfarpar yn gwneud yr amgylchedd yn anniben.<br>5. Cafwyd bod angen glanhau'r ardal aros yn ystod yr ymweliad nos.<br>6. Byddai'n dda i'r ystafell i deuluoedd gael ei hailwampio.<br>7. Roedd modd gweld yr hysbysfwrdd a oedd yn cael ei ddefnyddio gyda gwybodaeth bersonol cleifion i'w gweld. | | | |
| **Arfer Da a Nodwyd** | 1. Lefelau uchel o foddhad cleifion.<br>2. Roedd y staff yn cynnal diogelwch cleifion ac yn sicrhau bod yr holl gleifion yn cael gofal da yn ystod sifft hynod brysur. | | | |
| **Ymateb gan BIPAB** | 1. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael i gleifion a nododd fod nyrs yn cael ei phennu i ofalu am y cleifion.<br>2. Roedd y broses o brynu cadeiriau cyfforddus yn mynd rhagddi a bydd bwydydd poeth ac oer ar gael 24/7.<br>3. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth am y lefelau staffio arferol ar y ward a'r system | | | |

| | |
|---|---|
| | sydd ar waith er mwyn cyflenwi os bydd unrhyw absenoldebau.<br>4. Cyfarpar i gael ei storio'n briodol pan nad yw'n cael ei ddefnyddio a chaiff Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd ei benodi fel 'swyddog cadw tŷ'.<br>5. Mae gan yr uned lanhawr domestig am 12 awr y dydd. Bydd Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn helpu gyda dyletswyddau domestig y tu allan i'r oriau hyn.<br>6. Mae'r ystafell i deuluoedd yn ychwanegiad diweddar i'r uned ac mae cynlluniau ar waith i'w gwneud yn fwy cyfforddus.<br>7. Caiff hysbysfwrdd newydd ei brynu a fydd yn osgoi achosion o dorri cyfrinachedd cleifion. |

## Ardaloedd yr Ymwelwyd â nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

| Ysbyty | Ardal | Dyddiad yr Ymweliad | Terfyn Amser y Bwrdd Iechyd ar gyfer Ymateb | Ymateb wedi'i Dderbyn |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbyty Brenhinol Gwent** | **D4 East** | **28/08/2017** | **23/11/2017** | **Do** |
| **Materion a Nodwyd /argymhellion** | 1. Nid oedd yr holl staff yn cyflwyno'u hunain cyn rhoi gofal i gleifion.<br>2. Roedd rhai cleifion yn teimlo nad oedd y lefelau staffio'n ddigonol i ddiwallu eu hanghenion.<br>3. Nid oedd gan bob claf seiniwr a oedd yn gweithio.<br>4. Nid oedd llawer o gyfleusterau adloniant ar gael i gleifion ar y ward.<br>5. Roedd rhai cleifion yn teimlo y byddai cyfnod gorffwys tawel o fudd yn ystod y dydd.<br>6. Nid oedd pob claf yn gyfforddus.<br>7. Nid oedd anghenion hylendid personol yr holl gleifion yn cael eu diwallu.<br>8. Nid oedd cyfleusterau hylendid dwylo bob amser ar gael.<br>9. Cafwyd bod sgriniau cyfrifiaduron yn cael eu gadael ar agor, gan beryglu cyfrinachedd cleifion.<br>10. Nid oedd gwybodaeth i gleifion/ymwelwyr yn cael ei harddangos yn glir ac nid oedd tystiolaeth o daflenni gwybodaeth yn cael eu dosbarthu i gleifion.<br>11. Nid oedd digon o le storio ar y ward a chafwyd ei bod yn anniben.<br>12. Cafwyd bod biniau gwastraff clinigol heb eu cloi.<br>13. Cafwyd nad oedd y troli meddyginiaeth dan glo.<br>14. Dim ond un monitor pwysedd gwaed oedd yn gweithio ar y ward.<br>15. Roedd y gofod a oedd ar gael i ymwelwyr yn gyfyng iawn.<br>16. Rhoddwyd gwybod nad oedd rhai seinwyr wedi'u plygio i mewn.<br>17. Roedd dryswch ynghylch defnyddio ystafell staff/storio gan yr aethpwyd â chleifion | | | |

| | |
|---|---|
| | yno am gyfnod tawel.<br>18. Nid oedd pob blwch pethau miniog wedi'i gau.<br>19. Mae prinder dillad gwely ar y ward ar y penwythnos.<br>20. Nid oedd cyfleusterau hylendid dwylo bob amser yn cael eu cynnig cyn amser prydau bwyd.<br>21. Nid oedd system nodi hambyrddau'n cael ei rhoi ar waith ar y ward.<br>22. Nid oedd y cleifion yn gyffredinol yn ymwybodol o'r cyfleusterau megis byrbrydau drwy'r dydd a'r nos. |
| **Arfer Da a Nodwyd** | 1. Creodd y gofal roedd y staff yn ei roi i'r cleifion ar y ward argraff dda ar y tîm ymweld. |
| **Ymateb gan BIPAB** | 1. Atgoffwyd staff y ward o bwysigrwydd cyfathrebu a chyflwyno eu hunain.<br>2. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd fanylion am lefelau staffio ar gyfer y ward ac am y systemau sydd ar waith os bydd absenoldebau<br>3. Cafwyd seinwyr ychwanegol. Atgoffwyd staff i gadw llygad allan am y seinwyr yn ystod pob rownd meddyginiaeth.<br>4. Cafwyd radios ar gyfer pob bae ac mae troli papurau newydd ar gael i gleifion bob dydd.<br>5. Mae gan y ward gyfnod gorffwys ar hyn o bryd.<br>6. Archebodd rheolwr y ward 30 o glustogau ychwanegol a sicrhaodd fod blancedi ychwanegol ar gael. Mae bwndeli gofal croen yn cael eu defnyddio ar y ward ar hyn o bryd.<br>7. Mae gan y ward 3 cawod neillryw sy'n gweithio ac mae wedi gofyn am gyllid i ddarparu 2 gawod ychwanegol. Mae rheolwr y ward wedi archebu capiau shampŵ ar gyfer cleifion nad ydynt yn gallu defnyddio'r gawod.<br>8. Mae glanweithydd dwylo ar gael ar y ward, a dim ond pan fydd haint y caiff ei dynnu oddi yno. Mae cadarnhau bod glanweithydd dwylo ar gael wedi'i ychwanegu at y rota glanhau bob dydd.<br>9. Atgoffwyd pob aelod o staff i allgofnodi pan na fyddant yn defnyddio cyfrifiaduron. |

| | |
|---|---|
| | 10. Cynhaliwyd archwiliad Urddas a Gofal Hanfodol llawn ac, o ganlyniad, mae byrddau gwybodaeth wedi'u tacluso ac mae taflen wybodaeth i gleifion wedi'i chyflwyno.<br>11. Caiff gwastraff cyfrinachol gormodol ei waredu a chaiff hen fatresi i liniaru pwysau eu tynnu o'r ward.<br>12. Nid yw biniau unigol ar y ward wedi'u cloi, ond cânt eu hagor â phedal troed.<br>13. Atgoffwyd pob aelod o staff o bolisi rheoli meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd. Caiff y nyrs sy'n gyfrifol am y sifft ei hatgoffa mai ef/hi sy'n gyfrifol am hynny.<br>14. Ers 1 Tachwedd 2017, mae gan y ward 4 peiriant monitro pwysedd gwaed.<br>15. Atgoffir staff i gael gwared ar unrhyw gyfarpar nad yw'n cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod mwy o le i ymwelwyr.<br>16. Dim ond er mwyn hwyluso'r gwaith o symud gwely neu os nad yw'r seinydd/soced yn gweithio y caiff seinwyr eu datgysylltu. Cafwyd seinwyr ychwanegol.<br>17. Lluniwyd cynlluniau i ailddylunio'r ystafell yn ardaloedd penodol a fyddai'n cynnwys y canlynol; swyddfa, ystafell gyfarfod, storfa ac ystafell i berthnasau.<br>18. Atgoffwyd staff i sicrhau bod blychau pethau miniog wedi'u cau.<br>19. Mae staff yn ymwybodol o'r polisi uwchgyfeirio materion dillad gwely ac mae copi caled ohono wedi'i roi yn yr ystafell ddydd.<br>20. Prynwyd cadachau gwlyb unigol i'r cleifion hynny nad ydynt yn gallu defnyddio'r sinc.<br>21. Bydd y ward yn ailgyflwyno'r system hambyrddau coch mewn cydweithrediad â'r adran ddeietig a'r adran arlwyo.<br>22. Caiff diodydd poeth ac oer eu cynnig drwy gydol y dydd ac mae brechdanau a iogyrtau ar gael i gleifion diabetig y tu allan i oriau. Mae grawnfwydydd a thost ar gael 24/7. |

## Ardaloedd yr Ymwelwyd â nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

| Ysbyty | Ardal | Dyddiad yr Ymweliad | Terfyn Amser y Bwrdd Iechyd ar gyfer Ymateb | Ymateb wedi'i Dderbyn |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbyty Nevill Hall** | **3/3 Ward Duffryn** | **30/08/2017** | **04/12/2017** | **Do** |
| **Materion a Nodwyd /argymhellion** | 1. Roedd rhai cleifion yn teimlo nad oedd y lefelau staffio'n ddigonol.<br>2. Nid oedd gan bob claf seiniwr a oedd yn gweithio.<br>3. Roedd rhai cleifion yn teimlo y byddai cyfnod gorffwys tawel o fudd yn ystod y dydd.<br>4. Nid oes system mynediad drwy ganu cloch ar y ward ac roedd y drysau ar agor adeg cyrraedd.<br>5. Cafwyd bod biniau gwastraff clinigol heb eu cloi.<br>6. Cafwyd bod y clociau ar y ward wedi torri, gan achosi dryswch i'r cleifion.<br>7. Roedd y gofod i ymwelwyr yn gyfyng.<br>8. Mae angen newid rhai o'r llenni o gwmpas gwelyau'r cleifion.<br>9. Weithiau, mae problemau gyda dillad gwely ar y ward.<br>10. Nid oedd yr holl staff yn gwisgo bathodyn enw priodol.<br>11. Nid oedd cyfleusterau hylendid dwylo yn cael eu cynnig i'r holl gleifion cyn pryd bwyd.<br>12. Ni roddwyd gwybod i'r cleifion y gallai aelodau teulu fod yn bresennol yn ystod amser prydau bwyd i'w cynorthwyo i fwyta. | | | |
| **Arfer Da a Nodwyd** | 1. Lefelau uchel o foddhad cleifion ar y ward. | | | |
| **Ymateb gan BIPAB** | 1. Atgoffwyd staff i ymateb i seinwyr mewn modd amserol.<br>2. Caiff seinwyr eu profi bob wythnos a bydd staff yn sicrhau bod gan bob claf seiniwr/cloch galw.<br>3. Mae amser tawel ar waith ar y ward. | | | |

| | |
|---|---|
| | 4. Cynhaliwyd asesiad risg ar gyfer y system mynediad ac mae gwaith ar gyfer bysellbad mynediad wedi dechrau. Y tîm iechyd a diogelwch i gynnal asesiad risg ac ymarfer costio i ystyried gwella diogelwch ar bob ward.<br>5. Mae'r biniau bellach wedi cael eu cloi ac mae gwiriadau ar waith.<br>6. Mae'r ward wedi archebu clociau newydd a reolir gan radio ac ni fydd angen addasu'r amser.<br>7. Cyflwynwyd cais i gynnal asesiad o'r gofod i weld a ellir tynnu'r cypyrddau dillad.<br>8. Anfonwyd cais i'r adran Gwaith ac Ystadau gyfrifo cost llenni a rheiliau llenni newydd.<br>9. Atgoffwyd staff am y polisi uwchgyfeirio materion dillad gwely.<br>10. Archebwyd bathodynnau enw i'r staff.<br>11. Atgoffwyd staff i gynnig cyfleusterau golchi dwylo i gleifion cyn amseroedd bwyd.<br>12. Mae taflenni gwybodaeth am y ward ar gael wrth y fynedfa i'r ward. |

## Ardaloedd yr Ymwelwyd â nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

| Ysbyty | Ardal | Dyddiad yr Ymweliad | Terfyn Amser y Bwrdd Iechyd ar gyfer Ymateb | Ymateb wedi'i Dderbyn |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbyty Gwynllyw** | **Ward Sycamore** | **22/09/2017** | **05/12/2017** | **Do** |
| **Materion a Nodwyd /argymhellion** | 1. Nid oedd modd defnyddio ystafell ymolchi ar y ward oherwydd bod angen gwneud gwaith atgyweirio. | | | |
| **Arfer Da a Nodwyd** | 1. Dyfarnwyd achrediad Deall Dementia i'r ward.<br>2. Roedd yr amser a dreuliwyd gyda'r cleifion yn tynnu sylw at y lefelau uchel o ofal roeddent yn ei gael.<br>3. Mae'r gwaith addurno drwy'r ward yn ceisio dod â'r awyr agored i mewn fel bod cleifion na allant adael y ward yn 'profi'r' tymhorau ac adegau gwahanol o'r flwyddyn.<br>4. Mae'r cleifion yn cael budd o'r gweithgareddau amrywiol a gynhelir ar y ward.<br>5. Mae nifer o ystafelloedd ar gael i'r cleifion dreulio amser yn cymdeithasu, yn ogystal ag ymlacio a bwyta.<br>6. Roedd y ddarpariaeth amser prydau bwyd yn drefnus ac roedd staff yn rhagweithiol wrth gynorthwyo cleifion.<br>7. Mae'r ward yn enghraifft eithriadol o amgylchedd sy'n canolbwyntio ar gleifion gyda charfan o staff sy'n ymroddedig i sicrhau bod profiad cleifion o safon uchel. | | | |
| **Ymateb gan BIPAB** | 1. Nododd asesiad o gyfleusterau nad oedd angen yr ystafell ymolchi ychwanegol hon. Mae cynlluniau ar waith i'w newid yn storfa. | | | |

## Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mai 2018

| Ysbyty | Ardal | Dyddiad yr Ymweliad | Terfyn Amser y Bwrdd Iechyd ar gyfer Ymateb | Ymateb wedi'i Dderbyn |
|---|---|---|---|---|
| **Nevill Hall** | **Ward 4/3 Ward Gwent** | **21/02/2018** | **07/05/2018** | **Do** |
| **Materion a Nodwyd /argymhellion** | 1. Dylai staff y ward sicrhau eu bod yn cyflwyno eu hunain i gleifion cyn rhoi unrhyw ofal neu driniaeth.<br>2. Byddai'r CIC yn falch o gael gwybodaeth am y lefelau staffio ar y ward ar gyfer sifftiau'r dydd a'r nos.<br>3. Byddai'r CIC yn falch o ddeall pa ddarpariaeth sydd ar gael i gleifion wneud galwadau ffôn preifat neu dreulio amser gydag ymwelwyr mewn ardal breifat a chyfforddus.<br>4. Dylai staff y ward sicrhau bod cleifion yn gyfforddus drwy ofyn iddynt a oes ganddynt ddigon o glustogau a blancedi.<br>5. Dylai staff y ward sicrhau bod anghenion hylendid personol pob claf yn cael eu diwallu.<br>6. Dylai staff y ward sicrhau bod cyfleusterau hylendid dwylo ar gael i bob claf cyn prydau bwyd.<br>7. Byddai'r CIC yn falch o gael gwybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael i gleifion o ran ble y gallant fwyta eu prydau bwyd.<br>8. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff jygiau dŵr eu newid o leiaf deirgwaith y dydd.<br>9. Byddai'r CHC yn falch o ddeall a yw pob un o'r lifftiau yn gweithio nawr.<br>10. Byddai'r CIC yn falch o ddeall a yw'r clo diogelwch wedi'i osod.<br>11. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a fyddai storfa y gellir ei chloi o fudd i gleifion, h.y. os | | | |

| | |
|---|---|
| | caiff cleifion eu hannog i ddefnyddio llechi/dyfeisiau electronig yn ystod eu hamser ar y ward.<br>12. Byddai'r CHC yn falch o gael gwybodaeth am sut y gall cleifion gyfathrebu yn eu dewis iaith.<br>13. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a fyddai cyflenwad ychwanegol o ddillad nos o fudd i'r ward. |
| **Arfer Da a Nodwyd** | 1. Mae'r gwaith ailaddurno a wnaed i ardaloedd mewnol ac allanol yr ysbyty wedi cael effaith gadarnhaol ar brofiad cleifion.<br>2. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd ymateb yn gyflym i fater difrifol y groesfan sebra nad oedd yn glir iawn.<br>3. Canfuwyd bod staff yn rhagweithiol wrth ofalu am gleifion yn ystod yr ymweliad ac roeddent yn gweithio mewn modd cwrtais a chyfeillgar. |
| **Ymateb gan BIPAB** | 1. Atgoffwyd staff i gyflwyno eu hunain i gleifion. Bydd yr uwch-nyrs yn hyrwyddo ymgyrch 'Helo, fy enw i yw...'.<br>2. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth am y lefelau staffio.<br>3. Mae'r ystafell ddydd ar gael i gleifion wneud galwadau ffôn neu dreulio amser gydag ymwelwyr.<br>4. Caiff cyflenwadau dillad gwely eu hadolygu er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol, a bydd y ward yn prynu clustogau ychwanegol.<br>5. Atgoffwyd staff y ward i roi'r cymorth sydd ei angen er mwyn sicrhau bod anghenion hylendid cleifion yn cael eu diwallu.<br>6. Staff y ward i annog y defnydd o gadachau dwylo cyn prydau bwyd. Caiff pwysigrwydd hyn ei atgyfnerthu.<br>7. Gall cleifion fwyta eu prydau bwyd yn eu gofod gwely neu yn yr ystafell ddydd.<br>8. Mae staff y ward yn cydgysylltu â staff cadw tŷ ynglŷn â jygiau dŵr a chânt eu hannog |

| | |
|---|---|
| | i newid y rhain mor aml â phosibl.<br>9. Mae pob un o'r lifftiau bellach yn gweithio.<br>10. Mae cynllun gwaith i ddiweddaru holl ddrysau'r ward ar waith. Cynhaliwyd asesiad risg ar ddiogelwch y ward.<br>11. Anogir cleifion a pherthnasau i fynd ag eitemau gwerthfawr gartref. Caiff y ward ei hadolygu ar gyfer datrysiadau storio posibl.<br>12. Gofynnir i gleifion beth yw eu dewis iaith pan gânt eu derbyn i'r ysbyty a bydd cyfieithwyr ar gael iddynt. Gellir cael gwybodaeth i gleifion mewn ieithoedd eraill.<br>13. Anogir cleifion i wisgo yn ystod y dydd fel rhan o ymgyrch 'Rhoi Diwedd ar Barlys Pyjamas' (End PJ Paralysis). Mae'r Bwrdd Iechyd yn annog y wardiau i brynu dillad nos. |

## Ardaloedd yr Ymwelwyd â nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

| Ysbyty | Ardal | Dyddiad yr Ymweliad | Terfyn Amser y Bwrdd Iechyd ar gyfer Ymateb | Ymateb wedi'i Dderbyn |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbyty Brenhinol Gwent** | **Ward C7 East** | **15/03/2018** | **20/07/2018** | **Naddo** |
| **Materion a Nodwyd /argymhellion** | 1. Dylai staff y ward sicrhau bod gan yr holl gleifion unrhyw gymhorthion cyfathrebu ychwanegol sydd eu hangen arnynt i gyfathrebu'n effeithiol yn ystod eu hamser ar y ward.<br>2. Dylai staff y ward ystyried sut i gynnal preifatrwydd cleifion wrth drafod gofal neu driniaeth mewn ardal lle mae sawl gwely.<br>3. Byddai'r CIC yn falch o gael gwybodaeth am y lefelau staffio ar y ward ar gyfer sifftiau'r dydd a'r nos.<br>4. Dylai staff y ward sicrhau eu bod yn annog pob claf i symud yn ddiogel o amgylch y ward lle bynnag y bo'n bosibl.<br>5. Byddai'r CIC yn falch o gael gwybodaeth am y ddarpariaeth sydd ar gael i gleifion dreulio amser gyda'u hymwelwyr neu wneud galwadau ffôn preifat.<br>6. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a fyddai cyfnod gorffwys tawel o fudd i'r cleifion ar y ward.<br>7. Dylai staff y ward sicrhau bod cyfleusterau hylendid dwylo ar gael i bob claf cyn prydau bwyd.<br>8. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff jygiau dŵr eu newid o leiaf deirgwaith y dydd.<br>9. Dylai staff y ward sicrhau bod pob claf yn gallu gofalu am iechyd ei geg/dannedd mor | | | |

| | |
|---|---|
| | aml ag sydd ei angen arno.<br>10. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr arwyddion cywir wedi'u gosod er mwyn lleihau dryswch o amgylch y ward.<br>11. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol yn cael eu harddangos fel y gall cleifion ac ymwelwyr eu gweld yn glir.<br>12. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff y Dangosfwrdd ei ddiweddaru'n rheolaidd.<br>13. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod biniau gwastraff clinigol mewn ardaloedd cleifion wedi'u cloi.<br>14. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod blychau pethau miniog mewn ardaloedd cleifion wedi'u cau.<br>15. Dylai staff y ward sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro drysau tân.<br>16. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a fyddai storfa y gellir ei chloi o fudd i gleifion, h.y. os caiff cleifion eu hannog i ddefnyddio llechi/dyfeisiau electronig yn ystod eu hamser ar y ward.<br>17. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw meddyginiaeth yn cael ei gadael ar fyrddau neu hambyrddau wrth ochr y gwely.<br>18. Dylai staff y ward sicrhau y caiff cyfarpar megis cadachau a chwistrellau sydd wedi'u defnyddio eu gwaredu yn briodol ac yn effeithlon.<br>19. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a fyddai'n ddefnyddiol rhoi bin gwastraff wrth ymyl gwelyau cleifion nad ydynt yn gallu gadael eu gwely.<br>20. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff cyfrinachedd cleifion ei gynnal drwy storio nodiadau cleifion yn briodol.<br>21. Byddai'r CIC yn falch o gael gwybodaeth am yr amserlen ar gyfer trawsnewid yr ystafell asesu.<br>22. Byddai'r CIC yn falch o gael gwybodaeth am y gweithgareddau/gwirfoddoli sy'n |

| | |
|---|---|
| | digwydd ar y ward er mwyn difyrru/ysgogi cleifion.<br>23. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod digon o gyflenwadau o ddillad gwely ar gael ar benwythnosau.<br>24. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a fyddai cyflenwad o ddillad nos o fudd i'r ward a sut y gellir eu tagio fel y gellir eu dychwelyd.<br>25. Dylai'r staff arlwyo/ward barhau i sicrhau bod y troli bwyd wedi'i gysylltu er mwyn cynnal tymheredd priodol a darparu bwyd i gleifion mewn modd amserol.<br>26. Byddai'r CHC yn falch o gael gwybodaeth am y broses o sicrhau y caiff anghenion cleifion eu diwallu o ran cymorth yn ystod amseroedd bwyd . |
| **Arfer Da a Nodwyd** | 1. Roedd cleifion yn gyfforddus ar y cyfan a rhoddwyd clod i aelodau o staff. |
| **Ymateb gan BIPAB** | Nid oedd yn ddisgwyliedig ar adeg cyhoeddi'r adroddiad. |

## Ardaloedd yr Ymwelwyd â nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

| Ysbyty | Ardal | Dyddiad yr Ymweliad | Terfyn Amser y Bwrdd Iechyd ar gyfer Ymateb | Ymateb wedi'i Dderbyn |
|---|---|---|---|---|
| **Meddygfa** | **Meddygfa The Mount** | **22/3/2018** | **18/07/2018** | **Naddo** |
| **Materion a Nodwyd /argymhellion** | 1. Dylai'r Feddygfa ystyried arddangos amseroedd agor y brif feddygfa a'r feddygfa gangen y tu allan i'r adeilad.<br>2. Byddai cleifion yn elwa ar gael y wybodaeth ddiweddaraf am oriau agor, amseroedd clinigau mewn argyfwng, y system apwyntiadau a Fy Iechyd Ar-lein er mwyn sicrhau bod pob claf yn ymwybodol o'r manylion hyn. | | | |
| **Arfer Da a Nodwyd** | 1. Canfuwyd bod yr amgylchedd yn ddymunol i gleifion gydag adeilad hygyrch a digon o le i barcio.<br>2. Canfuwyd bod lefelau uchel o foddhad cleifion mewn perthynas ag amseroedd agor, staff y dderbynfa, mynediad i'r adeilad a'r gwasanaeth a ddarperir gan y meddygon teulu a'r nyrsys. | | | |
| **Ymateb gan BIPAB** | Nid oedd yn ddisgwyliedig ar adeg cyhoeddi'r adroddiad. | | | |